**Datganiad Preifatrwydd**
**Ymgeiswyr**

Drwy'r Datganiad hwn, mae'r geiriau "Y Brifysgol", "rydym" "ein" a "ni" yn cyfeirio at Adran Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol Prifysgol Abertawe (h.y. y Swyddfa Dderbyn, y Swyddfa Recriwtio Myfyrwyr, y Swyddfa Datblygu Rhyngwladol etc) a'r Colegau cysylltiedig. Mae'r geiriau "Rydych chi" "eich" a/neu "gwrthrych data" yn cyfeirio at y rhai sydd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn fyfyriwr yn y Brifysgol (adeg cyflwyno ymholiad ac adeg cyflwyno cais).

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut bydd yr is-adrannau Recriwtio a Derbyn yn Adran Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol Prifysgol Abertawe'n ymdrin â'ch data personol ac yn ei ddefnyddio yn ystod y broses recriwtio ac ymgeisio.

Bydd casglu data personol gennych chi yn ein galluogi i ddeall eich diddordebau'n well, bydd yn caniatáu i ni gadw mewn cysylltiad â chi er mwyn rhoi gwybodaeth i chi am ein gweithgareddau a'n datblygiadau, a bydd yn ein galluogi i'ch paratoi chi'n dda ar gyfer bod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe yn y dyfodol.

Bydd y Datganiad canlynol yn dangos y ffyrdd penodol y bydd y Brifysgol yn defnyddio'ch data personol at ddibenion derbyn a recriwtio.

Rydym yn ymrwymedig i ddiogelu'ch gwybodaeth ac i fod yn dryloyw am yr wybodaeth rydym yn ei chadw. Fodd bynnag, os hoffech ddarllen mwy am ymrwymiad y Brifysgol i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol ac i fod yn dryloyw yn gyffredinol, ewch i dudalennau gwe Diogelu Data'r Brifysgol.

**Pwy yw'r Rheolydd Data a'i fanylion cyswllt**
Prifysgol Abertawe yw'r rheolydd data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau myfyrwyr yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 y DU (DPA) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data newydd (GDPR).

**Manylion Cyswllt y Swyddog Diogelu Data**
Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r unigolyn hwnnw yn dataprotection@abertawe.ac.uk

**Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi?**
Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch chi wrth i ni ryngweithio â chi fel darpar fyfyriwr. Er enghraifft, pan fyddwch yn anfon ymholiad atom, cais am brosbectws, e-bost a/neu'n cyflwyno cais i astudio gyda ni. Mae'n bosib y byddwn hefyd yn derbyn gwybodaeth amdanoch o'r tu allan i'r Brifysgol hefyd, megis gwybodaeth gan UCAS yn ymwneud â cheisiadau israddedigion, a gwybodaeth a ddarperir gan ganolwyr. Dyma rai o'r mathau o wybodaeth bersonol sy'n cael eu prosesu:

**Casglu gwybodaeth a gyflwynir drwy ffurflenni neu drydydd parti**
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth bersonol, megis dyddiad geni at ddibenion diogelu plant a phobl dan 18 oed etc.
- Profiad a chyrhaeddiad addysgol blaenorol
- Hanes cyflogaeth
- Gwybodaeth am fewnfudo (megis manylion eich pasbort, eich hanes mewnfudo a'ch hyfedredd iaith Saesneg)
- Gwybodaeth ariannol lle bo angen, er enghraifft, i asesu cymhwysedd am ysgoloriaeth neu gymhwysedd am ddatganiad Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS).
- Gwybodaeth am iechyd (gan gynnwys anableddau) sy'n perthyn i gategorïau arbennig o ddata, lle mae angen cydsyniad penodol adeg ymgeisio.
- Holiadur Iechyd - Addasrwydd i Ymarfer - Meddygaeth a Choleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd

- Copïau o ddogfennau adnabod ar gyfer gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Myfyrwyr Rhyngwladol: Copïau o basbortau, fisâu a dogfennau eraill sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y Swyddfa Gartref.
- Myfyrwyr o'r DU a'r UE: Copïau o basbortau neu ddogfennau eraill sy'n angenrheidiol i asesu statws ffioedd.

**Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**
Yn ystod y broses recriwtio ac ymgeisio, byddwn yn defnyddio eich data personol at ddiben asesu eich cymhwysedd i gael eich derbyn yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe. Caiff yr wybodaeth ei phrosesu at y dibenion canlynol, ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr:

| Diben | Sail a Chyfiawnhad Cyfreithiol |
|---|---|
| Defnyddir ymholiadau (neu fynegiannau o ddiddordeb) a dderbynnir gan y Brifysgol i greu cofnod yn ein cronfa ddata. Mae hyn yn caniatáu i ni eich tywys drwy gamau nesaf y broses ymgeisio. | **Cyfiawnhad**<br>Drwy gysylltu â ni, rydych wedi mynegi diddordeb mewn dilyn cwrs gradd yn Abertawe. Rydym yn eich adnabod chi fel darpar fyfyriwr yn ystod y cyfnod pan fyddwch yn 'wir ymholwr'<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol i **gyflawni contract** gyda gwrthrych y data neu er mwyn gweithredu ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i gontract. |
| Defnyddir ceisiadau a dderbynnir gan y Brifysgol i asesu eich cymhwysedd i gael eich derbyn yn fyfyriwr yn Abertawe. (Nid yw hyn yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â gwybodaeth iechyd a ddatgelwyd). | **Cyfiawnhad**<br>Drwy gyflwyno cais, rydym yn eich adnabod yn ddarpar fyfyriwr yn ystod y cyfnod pan fyddwch yn 'wir ymgeisydd'<br><br>**Y Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol i **gyflawni contract** gyda gwrthrych y data neu er mwyn gweithredu ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i gontract. |
| O ganlyniad i'ch cais, byddwn hefyd yn defnyddio: | |
| i) Gwybodaeth ategol megis asesiadau ffioedd ac asesiadau o hanes mewnfudo. | **Cyfiawnhad**<br>I sicrhau asesiad cywir o'ch ymholiad a/neu eich cais, efallai y gofynnwn i chi ddarparu gwybodaeth ategol ychwanegol.<br><br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol i **gyflawni contract** gyda gwrthrych y data neu er mwyn gweithredu ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i gontract.<br><br>Mae angen prosesu eich data personol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freinir yn y Brifysgol. |

| | |
|---|---|
| ii) Bydd angen llenwi holiaduron ar gyfer cyrsiau sy'n gysylltiedig â'r proffesiynau iechyd. | **Cyfiawnhad**<br>Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr ar ein rhaglenni proffesiynol yn addas i ymarfer eu gyrfa o ddewis, felly mae gwiriadau'r heddlu ac iechyd yn ofynnol ar gyfer mynediad i'r cwrs.<br><br>**GWIRIADAU IECHYD**<br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR i brosesu categorïau arbennig o ddata.**<br>Mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad penodol i'r prosesu.<br><br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol i **gyflawni contract** gyda gwrthrych y data neu er mwyn gweithredu ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i gontract.<br><br>**GWIRIADAU'R HEDDLU**<br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol i **gyflawni contract** gyda gwrthrych y data neu er mwyn gweithredu ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i gontract.<br><br>Mae'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freinir yn y Rheolydd Data.<br><br>Seiliau cyfreithiol ychwanegol yn y Ddeddf Diogelu Data ar gyfer prosesu data o gategori arbennig:<br><br>• Atodlen 1 Rhan 2 Paragraff 8 - atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon<br><br>• Atodlen 1 Rhan 2 Paragraff 9 - Amddiffyn y cyhoedd rhag anonestrwydd<br><br>• Atodlen 1 Rhan 1 Paragraff 1 - Cyflogaeth, nawdd cymdeithasol a diogelwch cymdeithasol |
| Cwynion ac Apeliadau | **Cyfiawnhad**<br>I sicrhau cysondeb a thegwch yn ystod y broses recriwtio a derbyn, mae gennym weithdrefn cwynion ac apeliadau, lle gellir gofyn am wybodaeth ychwanegol.<br><br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freinir yn y Rheolydd Data. |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth ynghylch materion mewnfudo | **Cyfiawnhad**<br>Os oes angen fisa ar fyfyrwyr i ddod i'r DU, mae'n ofyniad cyfreithiol eu bod yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol.<br><br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol sy'n rhwymo'r rheolydd.<br><br>Mae angen prosesu eich data personol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freinir yn y brifysgol. |
| **Cyfathrebu â chi:** Gan ddibynnu ar yr wybodaeth a roddwyd gennych yn ystod y broses recriwtio a derbyn, gallwn gyfathrebu â chi drwy'r post, dros y ffôn (a ffôn symudol) neu drwy gyfrwng electronig, e-bost yn bennaf.<br><br>Os byddwch yn derbyn negeseuon dieisiau, gallwch ddewis peidio â derbyn ein negeseuon e-bost unrhyw adeg.<br><br>Gallwn hefyd ddefnyddio swyddogaethau busnes y cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth berthnasol a fydd yn eich tywys drwy'r broses. *Sylwer: dylai defnyddwyr platfformau'r cyfryngau cymdeithasol allu addasu eu dewisiadau yng ngosodiadau pob platfform.*<br><br>Gallwch hefyd gysylltu â ni'n uniongyrchol os hoffech ddiweddaru'ch dewisiadau. | **Cyfiawnhad**<br>I rannu gwybodaeth angenrheidiol â chi mewn perthynas â'ch astudiaethau yn y dyfodol.<br><br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol i **gyflawni contract** gyda gwrthrych y data neu er mwyn gweithredu ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i gontract.<br><br>Wrth anfon gwybodaeth ategol atoch a fydd yn eich tywys drwy'r broses:<br><br>**Sail Gyfreithiol fel y'i diffinnir gan y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion Buddiannau Dilys y rheolydd neu drydydd parti, ac eithrio lle bo buddiannau neu hawliau a rhyddidau sylfaenol gwrthrych y data yn drech na buddion o'r fath.<br><br>***Dyma ein buddiannau dilys penodol:***<br>Mae'r Brifysgol yn gallu cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau y tu allan i gwmpas ei phrif nod o ddarparu addysg. Mae'n bwysig y gallwn gynnig y gwasanaethau hyn i wella profiad y myfyrwyr.<br><br>Wrth gynorthwyo myfyrwyr cymaint â phosib yn y broses ymgeisio, gallwn sicrhau hefyd eu bod yn cwblhau eu cais ac yn penderfynu astudio gyda ni. |
| Digwyddiadau ychwanegol rydym yn eu cynnig, megis y Gwasanaeth Cwrdd a Chyfarch, cynadleddau Myfyrwyr ac Athrawon etc. | **Cyfiawnhad**<br>Bydd y gwasanaethau ychwanegol sy'n cael eu cynnig gennym ni yn cynnwys dull cofrestru lle gofynnir am gydsyniad.<br><br>**Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae Gwrthrych y Data wedi cydsynio i'r prosesu. |

| | |
|---|---|
| Nawdd ac Ysgoloriaethau | **Cyfiawnhad**<br>Mae nifer o gynlluniau nawdd ac ysgoloriaethau ar gael yn ystod y broses.<br><br>Gan ddibynnu ar y math o ysgoloriaeth rydych yn ei derbyn, mae'r sail gyfreithiol yn amrywio.<br><br>Er enghraifft:<br>Os ydych chi wedi ymgeisio am yr ysgoloriaeth<br>**Y Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae Gwrthrych y Data wedi cydsynio i'r prosesu.<br><br>Os dyfarnwyd yr ysgoloriaeth i chi'n awtomatig oherwydd eich bod yn bodloni rhestr o feini prawf penodol (megis graddau), yna'r sail gyfreithiol yw 'Angenrheidrwydd dan Gontract'.<br><br>**Y Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol i gyflawni contract gyda gwrthrych y data neu er mwyn gweithredu ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i gontract. |
| Dadansoddi a Phroffilio | **Cyfiawnhad**<br>Mae'n bwysig ein bod yn gallu defnyddio data at ddibenion ymchwil farchnata i lywio ein gweithgarwch marchnata yn y dyfodol a chynnal ein gallu i gystadlu yn y farchnad. Fel arfer, defnyddir data dienw i nodi/dadansoddi tueddiadau etc., ond gellir defnyddio data personol hefyd.<br><br>**Y Sail Gyfreithiol yn ôl diffiniad y GDPR**<br>Mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion Buddiannau Dilys y rheolydd neu drydydd parti, ac eithrio lle mae buddiannau neu hawliau a rhyddidau sylfaenol gwrthrych y data yn trechu buddiannau o'r fath.<br><br>***Ein buddiannau dilys penodol yw:***<br>Mae'n bwysig i'r Brifysgol allu defnyddio data at ddibenion ymchwil farchnata i lywio ei gweithgarwch marchnata yn y dyfodol a chynnal ei gallu i gystadlu yn y farchnad. |

| | |
|---|---|
| Cynllun Profi, Olrhain a Dioggelu Covid-19 | **Cyfiawnhad**<br><br>Sicrhau diogelwch y Brifysgol, ei phobl a'i chyfleusterau. Efallai y byddwn ni'n rhannu gwybodaeth am gysylltiadau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru os bydd gofyniad arnom ni i wneud hynny am resymau profi, olrhain a diogelu COVID-19.<br><br>**Sail gyfreithiol fel y'i diffinnir gan GDPR**<br><br>Mae prosesu'n angenrheidiol pan fydd gofyniad cyfreithiol neu statudol neu os bydd y prosesu'n angenrheidiol er lles y cyhoedd. |

Y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni, yn ôl diffiniad y GDPR, yw i gyflawni contract y dyfodol lle rydych chi wedi'ch adnabod fel 'gwir ymholwr' a/neu 'wir ymgeisydd'.

Diffiniadau:-

| | |
|---|---|
| 'Gwir Ymholwr' | Bydd ymgeisydd yn 'wir ymholwr' yn ystod y flwyddyn pan gyflwynodd ei gais yn unig. Os nad yw wedi cyflwyno cais erbyn diwedd cyfnod cofrestru'r flwyddyn academaidd benodol honno, ni fydd bellach yn 'wir ymholwr' a chaiff ei wahodd i optio i mewn i dderbyn cyfathrebiadau pellach. Er enghraifft, os yw ymgeisydd wedi cyflwyno ymholiad ar gyfer blwyddyn academaidd 18/19, ac os nad yw wedi cyflwyno cais erbyn 15 Hydref 2019, anfonir gwahoddiad i optio i mewn. Os penderfyna beidio ag optio i mewn, caiff ei gofnod ei newid i: 'peidiwch â chysylltu'. Fodd bynnag, caiff y data personol ei gadw yn y System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid tan ddiwedd y cyfnod cadw, neu nes y derbynnir cyfarwyddiadau i'w ddileu. |
| 'Gwir Ymgeisydd' | Bydd ymgeisydd yn 'wir ymgeisydd' yn ystod y flwyddyn pan dderbynnir ei gais yn unig. Os nad yw wedi gwneud cais erbyn diwedd y cyfnod cofrestru yn y flwyddyn academaidd benodol honno, ni fydd yn 'wir ymgeisydd' mwyach a chaiff ei wahodd i optio i mewn i dderbyn cyfathrebiadau pellach, h.y. os yw ymgeisydd wedi cyflwyno ymholiad ar gyfer blwyddyn academaidd 18/19 ac os nad yw wedi cyflwyno cais erbyn 15 Hydref 2018, anfonir gwahoddiad i optio i mewn. Os penderfyna beidio ag optio i mewn, caiff ei gofnod ei ddiweddaru i 'peidiwch â chysylltu'. Fodd bynnag, caiff y data personol ei gadw yn y System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid tan ddiwedd y cyfnod cadw neu nes y derbynnir cyfarwyddiadau i'w ddileu. |

**Pa wybodaeth rydym yn ei derbyn gan drydydd partïon?**

Fel rhan o'ch cais i fod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe, mae'n bosib y byddwn yn derbyn eich cais, neu wybodaeth arall am eich cais, gan ffynonellau allanol. Dyma rai enghreifftiau o'r ffynonellau hyn:

| Data y gallwn ei dderbyn | Ffynhonnell |
|---|---|
| Data o'ch cais, sy'n cynnwys manylion cyswllt a chyrhaeddiad, profiad gwaith, sefydliad blaenorol, data cyd-destunol a gwybodaeth am anabledd. | UCAS, prosiectau ymchwil ysgoloriaeth megis M2A, KESS II a Chynghorau Ymchwil y DU, Y Coleg, Erasmus, CAB, Kaplan a/neu sefydliadau addysg uwch os yw eich rhaglen astudio yn cynnwys, er enghraifft, treulio cyfnod mewn sefydliad heblaw am Brifysgol Abertawe. |
| Geirdaon | Eich canolwr. |
| Eich statws a'ch hanes mewnfudo | Y Swyddfa Gartref (UKVI), y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. |
| Trawsgrifiadau (manylion am raglenni rydych yn eu hastudio, neu wedi eu hastudio, mewn sefydliad arall a'ch cyrhaeddiad) | Cyrff dyfarnu, HEDD, sefydliad arall a/neu ysgolion uwchradd. |
| Cadarnhad gan glirio | DBS, gwiriadau'r heddlu, ATAS, y GIG |
| Cymhwysedd ar gyfer Y Coleg neu Brifysgol Abertawe | Mae'r Coleg, Prifysgol Abertawe, yn fenter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a Navitas sy'n darparu cyrsiau llwybr. Y Coleg, Prifysgol Abertawe, yw olynydd Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe (ICWS) a oedd yn rhan o system Colegau Prifysgol Abertawe.<br><br>Os nad yw myfyriwr yn bodloni gofynion mynediad Y Coleg ar gyfer cyrsiau penodol, gall fod yn gymwys i astudio ym Mhrifysgol Abertawe yn lle hynny. Felly, bydd Y Coleg yn rhannu'r cais â Phrifysgol Abertawe at ddibenion prosesu. |

**Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?**
Oni bai fod gofyniad cyfreithiol i'w wneud, ni fydd eich data yn cael ei rannu â sefydliad arall y tu allan i'r Brifysgol. Fodd bynnag, lle bo angen, bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu er mwyn cefnogi a darparu gwasanaeth y broses recriwtio a derbyn.

Mae'r adran hon yn amlygu'r prif sefydliadau a'r amgylchiadau mwyaf cyffredin lle byddwn yn datgelu gwybodaeth am fyfyrwyr. Lle bo hyn yn cynnwys trosglwyddo rhyngwladol, ni chaiff gwybodaeth ei throsglwyddo, oni bai fod y broses yn bodloni'r amodau a bennwyd gan ddeddfwriaeth Diogelu Data a deddfwriaeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Dyma rai enghreifftiau o ffynonellau:

| Data y gallwn ei rannu | Derbynwyr |
|---|---|
| Ymholiadau (neu fynegiannau o ddiddordeb) | Gallwn rannu eich ymholiad â Choleg mewnol fel y gall ymateb i'ch ymholiad. |
| Data o'ch cais, sy'n cynnwys manylion cyswllt a chyrhaeddiad, profiad gwaith, sefydliad blaenorol, data cyd-destunol a gwybodaeth am anabledd | Gallwn rannu eich cais yn fewnol â cholegau eraill y Brifysgol fel y gallant asesu eich cymhwysedd fel darpar fyfyriwr Abertawe. |
| Gwybodaeth ynghylch materion mewnfudo (yn ôl yr angen) | Mae'r Brifysgol wedi'i thrwyddedu i noddi myfyrwyr mudol o dan Haen 4 y system ar sail pwyntiau. Bydd y Brifysgol yn darparu data i'r Swyddfa Gartref er mwyn cael rhif Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS). Mae rhif CAS yn galluogi myfyrwyr i wneud cais am fisa Myfyriwr Haen 4. Bydd y Brifysgol hefyd yn darparu data am fyfyrwyr â Fisa Myfyriwr Haen 4 i'r Swyddfa Gartref a'i hadrannau er mwyn cyflawni ei dyletswyddau o dan ei thrwydded. |
| Cymhwysedd ar gyfer Y Coleg neu Brifysgol Abertawe | Mae'r Coleg, Prifysgol Abertawe, yn fenter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a Navitas, sy'n darparu cyrsiau llwybr. Y Coleg, Prifysgol Abertawe, yw olynydd Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe (ICWS) a oedd yn rhan o system Colegau Prifysgol Abertawe.<br><br>Os nad yw myfyriwr yn bodloni gofynion mynediad Prifysgol Abertawe ar gyfer cyrsiau penodol, gall fod yn gymwys i astudio yn Y Coleg yn lle hynny. Felly, caiff y cais ei rannu â'r Coleg at ddibenion prosesu. |
| Data o'ch cais megis cymwysterau lle y bo'n berthnasol. | Mae Canolfan Gwybodaeth Cydnabyddiaeth Genedlaethol y DU (UK NARIC) yn cynghori sefydliadau fel ni ar gymharu cymwysterau rhyngwladol â lefelau fframwaith cymwysterau'r DU. Mae'n gwneud hyn drwy asesu'r cymhwyster drwy ei phorth ar-lein. |
| Data o'ch cais megis diweddariadau am y gweithgarwch prosesu. | Noddwyr a rhieni lle darparwyd cydsyniad. |
| Data o'ch cais | Sefydliadau addysg uwch eraill, er enghraifft, os yw'ch rhaglen astudio'n golygu treulio cyfnod mewn sefydliad y tu allan i Brifysgol Abertawe. |
| Manylion Personol | Byddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth gyda Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru er mwyn cefnogi'r broses olrhain cysylltiadau yn ôl yr angen. |

Bydd unrhyw ddatgeliad arall a wneir gan y Brifysgol yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data a'r GDPR, ac ystyrir eich buddiannau.

**Trosglwyddo'ch Gwybodaeth yn Rhyngwladol**
Ni fyddwn yn trosglwyddo unrhyw ran o'ch data personol y tu allan i'r UE fel arfer. Caiff unrhyw wybodaeth a drosglwyddir ei throsglwyddo yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

**Am ba gyfnod y caiff eich gwybodaeth ei chadw?**
Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n rhestr o gyfnodau cadw. Cliciwch **yma** am ragor o fanylion.

**Diogelwch eich gwybodaeth**
Mae Deddfwriaeth Diogelu Data yn gosod dyletswydd arnom i gadw'ch gwybodaeth yn ddiogel. Golyga hyn y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, ac y cymerir yr holl gamau priodol i atal mynediad a datgeliad anawdurdodedig. Ni chaiff neb fynediad at eich gwybodaeth, ac eithrio'r aelodau staff hynny y mae angen iddynt gyrchu rhannau perthnasol o'ch gwybodaeth, neu'ch holl wybodaeth. Bydd gwybodaeth electronig amdanoch yn cael ei diogelu trwy gyfrineiriau a chyfyngiadau diogelwch eraill, a chedwir ffeiliau papur mewn ardaloedd diogel lle rheolir mynediad.

Gall rhai gweithgareddau prosesu gael eu gwneud ar ran y Brifysgol gan sefydliad sydd wedi'i gontractio at y diben hwnnw. Bydd sefydliadau sy'n prosesu data personol ar ran y Brifysgol dan rwymedigaeth drwy gontract i brosesu data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

**Pa hawliau sydd gennych?**
Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i'ch gwybodaeth bersonol gael ei phrosesu, i gywiro, dileu a chyfyngu ar fynediad at eich gwybodaeth bersonol a'i throsglwyddo. Os ydych wedi rhoi'ch cydsyniad i Brifysgol Abertawe brosesu unrhyw rannau o'ch data, mae gennych hawl i dynnu'r cydsyniad hwnnw yn ôl hefyd. Ewch i **Dudalennau Gwe’r Brifysgol am Ddiogelwch Data** i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau.

Dylid cyflwyno ceisiadau neu wrthwynebiadau'n ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r

Brifysgol:- Mrs Bev Buckley
Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data)
Swyddfa'r Is-ganghellor,
Prifysgol Abertawe,
Parc Singleton,
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

**Diweddaru eich dewisiadau**
Byddwch yn gallu diweddaru eich dewisiadau unrhyw bryd ar-lein, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennych yn ystod y broses recriwtio a derbyn. Mae'r ffurflen dewisiadau ar gael **yma**.

**Canlyniadau gwrthod darparu'r data pan fo'r cais yn seiliedig ar ofyniad statudol neu o ran contract**
Yn anffodus, ni fydd y Brifysgol yn gallu prosesu eich cais os ydych yn gwrthod darparu'r wybodaeth angenrheidiol pan fo'r cais yn seiliedig ar gontract neu ofyniad statudol.

**Sut i gwyno**
Os ydych yn anfodlon ar y ffordd mae'ch gwybodaeth bersonol wedi cael ei phrosesu, yn y lle cyntaf, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn anfodlon wedi hynny, mae gennych hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael penderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
www.ico.org.uk

**Eich Cyfrifoldebau**
Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich manylion personol yn gyfredol. Yn ystod eich cyfnod astudio, efallai y cewch fynediad at wybodaeth bersonol am bobl eraill. Disgwylir i chi drin y fath wybodaeth mewn modd cyfrifol a phroffesiynol, ac mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i wneud hyn yn unol â deddfwriaeth diogelu data, yn ogystal ag unrhyw foeseg broffesiynol neu godau ymddygiad eraill. Os ydych yn dod yn ymwybodol o wybodaeth bersonol, a hynny mewn modd cyfrinachol, disgwylir i chi beidio â'i datgelu i neb heb gydsyniad yr unigolyn, oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Hefyd, ni ddylech geisio mynediad at ddata personol am bobl eraill os nad oes gennych hawl i wneud hynny. Ystyrir cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw aelod o'r Brifysgol sy'n gweithredu'n groes i Ddeddfwriaeth Diogelu Data neu ddyletswydd cyfrinachedd.

Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau diogelu data ar waith sydd ar gael **yma**:

**Adolygwyd a Diweddarwyd: Chwefror 2019**